***Statws*** *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2001 No. 2446

# Rheoliadau Grant Prosesu a Marchnata Amaethyddol (Cymru) 2001

**Achosion eraill lle mae pwerau adennill etc. yn gymwys**

**13.** Caiff y Cynulliad Cenedlaethol arfer y pwerau a bennir ym mharagraffau 1(a) a (b) o reoliad 14—

(a) os oes newid o sylwedd wedi bod yn natur, graddfa, costau neu amseriad y gweithrediad y mae cymorth ariannol wedi'i roi neu y mae ymrwymiad wedi'i wneud mewn perthynas ag ef; neu

(b) os yw'r gweithrediad y rhoddwyd y cymorth ariannol neu y gwnaed yr ymrwymiad mewn perthynas ag ef wedi'i ohirio neu'n cael ei ohirio, neu'n annhebyg o gael ei gwblhau.